1 Gall clefydau heintus fod yn broblem fawr i feithrinfeydd a sefydliadau tebyg. Weithiau gall olygu gorfod eu cau am ychydig ddyddiau neu fwy.

2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwybod ei bod hi'n anodd i rieni sy'n gweithio ond mae'n annheg ar y feithrinfa a'r plant eraill os ydych chi'n anfon eich plentyn i'r ysgol chithau gwybod ei fod yn sâl.

3 Os ydi'ch plentyn yn sâl ac yn mynd i'r ysgol gall roi plant eraill a staff mewn perygl. Mae pobl yn ymateb i heintiadau yn wahanol, er enghraifft gall aelod o staff sy'n feichiog fynd yn sâl iawn.

4 Gall ysgolion helpu i atal heintiadau rhag lledaenu. Mae ganddyn nhw bolisïau a threfnau pwrpasol yn eu lle. Peidiwch â gofyn iddyn nhw dorri'r rhain a rhoi eraill mewn perygl – peidiwch â mynd â'ch plentyn i'r feithrinfa tan y mae'r symptomau wedi clirio ers **48 awr**.

Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ffordd Rhuthun
Wrecsam
LL13 7TU

public_protection@wrexham.gov.uk

Welsh Network of Healthy School Schemes

Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

1. Mae heintiadau'n cael eu hachosi gan:
Bacteria e.e. Campylobacter/E.coli/ Salmonela Firws e.e. Norofirws/Rotafirws Parasit e.e. Cryptosporidiwm/Giardia

2. Gall heintiadau ledaenu sawl ffordd gan gynnwys drwy ysgarthion, drwy'r geg, drwy gyffwrdd mewn powl, teganau ac offer ac ati.

3. Y symptomau cyffredin ydi **d**olur rhydd, chwydu a phoen yn y bol.

4. Mae gan ysgolion gamau yn eu lle i reoli heintiadau. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni glanhau, rheoli diogelwch bwyd, hylendid personol a pholisïau staff. Fodd bynnag, cadw'r haint draw yn y lle cyntaf ydi'r ffordd orau o'i rheoli.

5. Gwnewch yn siŵr fod symptomau eich plentyn wedi clirio ers **48** awr cyn ei anfon yn ôl i'r ysgol.

6. Nid oes disgwyl i ysgolion edrych ar ôl plant sâl. Byddan nhw'n cysylltu efo chi i nôl eich plentyn os oes ganddo symptomau o salwch – gall ledaenu o un plentyn i'r llall yn gyflym iawn.

7. Gwnewch yn sir bod gan y ysgol eich manylion cyswllt diweddaraf a rhowch wybod i'r staff os na fyddwch chi ar gael neu os oes newid i'ch trefn feunyddiol.

8. I dderbyn mwy o gyngor ar heintiadau, symptomau a sut i atal heintiau rhag lledaenu ewch i:

www.hpa.org.uk/Topics/InfectiousDiseases

Cyflwynwyd y daflen hon gan y rhifau **4** ac **8** a'r llythrennau **D** a **Ch**. Gwnewch yn siŵr fod symptomau eich plentyn wedi clirio ers **48 awr** cyn ei anfon yn ôl i'r feithrinfa.



AWR

www.wrexham.gov.uk / www.wrecsam.gov.uk